Cyngor Bro Llanllwni
Adoddiad Cyfarfod Mawrth 2024

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi poster o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfodydd.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Llongyfarchwyd Dewi ac Eleri Thomas Blaencwmdu ar ddathlu Priodas Aur yn ddiweddar. Llongyfarchiadau, yn ogystal, i Hefin Jones am ennill yr actor gorau yng nghystadleuaeth ddrama'r CFFI yn ddiweddar. Dymunir gwellhad buan i Alwena Owen yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

PLISMONA
Nid oedd heddwas yn bresennol yn y cyfarfod.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf.  Nid oedd damweiniau i'w cofnodi.
Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi archwilio'r adnoddau ar 05 Hydref 2023.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd Adroddiadu misol yn cael eu gosod ar y wefan ac yn ymddangos yn y wasg.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD
Roedd y diffibrilion yn eu lle erbyn hyn, wedi 'u harchwilio a hyfforddiant wedi'i drefnu.

CWTERION, TYLLAU A DŴR AR Y FFORDD
Mae swyddogion y Cyngor Sir a'n cynrychiolydd etholedig ar y Cyngor Sir wedi derbyn pob cwyn a ddaeth i sylw'r Cyngor Bro.

PWLL JAC
Roedd coeden fawr arall wedi cwympo gerllaw Pwll Jac ond erbyn hyn roedd y goeden wedi ei thorri a'r gwaith wedi ei gwblhau.

GOLEUADAU SOLAR
Ni fu datblygiad pellach am y goleuadau ger y cysgodfannau bws o fewn y pentref.

BANCIO
Mae'n ymddangos y bydd yr helyntion diweddar yn sgil cau'r gangen leol o Fanc Lloyds yn cael eu datrys yn fuan. Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

CEISIADAU
Penderfynwyd cefnogi'r canlynol: Eisteddfod Llanfihangerl-ar-arth a'r Plwyf; Elusen Cancr Plant

Bydd y llythyr a gafodd ei anfon ar ran Cyngor Bro Llanllwni i Green Gen yn cael ei osod ar Wefan y Cyngor Bro.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 13 Mai 2024 am 8yh.